

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 3 Rhif 9

Yn rhad ac am ddim

Rhagfyr 2022

Dysgwyr St Albans



Dysgwyr St Albans

gan Elizabeth Liney ac Amanda Feron

Ers blynyddoedd mae Cymry Cymraeg wedi byw yn St Albans. Yn anffodus mae'r nifer ohonyn nhw wedi gostwng dros yr oesoedd. Dechreuwyd trwy'r U3A Verulam, dau ddosbarth Cymraeg gyda thiwtorïaid lleol, a oedd yn ddysgwyr eu hunain, i annog pobl leol gyda chysylltiadau Cymreig i ddysgu'r iaith. Dros y pandemig, parhaodd y dosbarth oedd wedi cyrraedd lefel Canolradd ddysgu gyda'r un tiwtor lleol dros Zoom, tra gwnaeth myfyrwyr lefel Sylfaen ymuno â chyrsgiau Dysgu Cymraeg, dros Zoom hefyd. Gwelodd pawb yr eisiau i gwrdd â'i gilydd wyneb yn wyneb.

Dros yr haf cychwynnodd Cylch Siarad newydd yn St Albans. Breuddwyd dwy o ddysgwyr, Elizabeth Liney sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg ers 2012 ac Amanda Feron sydd wedi bod yn dysgu ers dwy flynedd. Cwrddon ni'r tro cyntaf ym mis Mehefin ar ôl i Elizabeth

ateb cais Amanda ar wefan SSiW am bartner siarad yn Swydd Hertford. Yn fuan daeth pobl a oedd wedi darllen amdanon ni ar Fforwm SSiW a dysgwyr lleol i ymuno â ni. Dyn ni'n falch iawn o gael cefnogaeth siaradwraig frodorol leol hefyd.

Mae gwreiddiau'r dysgwyr o bob rhan o Gymru a Lloegr ond gwnaethon ni ddarganfod yn fuan pa mor fach yw'r byd Cymreig wrth i ffrindiau newydd ddod o hyd i gysylltiadau bach. Er enghraifft roedd teuluoedd dwy ferch yn dod o'r un stryd yn Abertawe. Mae siaradwyr Cymraeg mewn teuluoedd sawl aelod ond gyda phobl eraill does dim llawer o gyswllt gyda Chymru o gwbl. Er enghraifft, Saesnes o Kingston upon Hull yw Elizabeth. Symudodd ei theulu o'r Alban i Ferthyr Tudful yn y chwedegau pan oedd hi'n 14 oed. Doedd dim cyfle i siarad Cymraeg yna ond aeth hi i'r ysgol mewn lle hanesyddol, Castell Cyfarthfa, cyn gartref Meistr Haearn William Crawshay. Yma daeth hi'n ymwybodol o hanes Cymru o Oes y

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tywysogion i'r Chwyldro Diwydiannol mewn moddau anffurfiol fel trwy gyfundrefn Tai'r Ysgol (Caradog, Llewelyn, Hywel Dda ac Owain Glyndŵr), cystadlu yn Eisteddfodau'r Ysgol a'r Urdd a thrwy weld olion y gweithfeydd haearn a'r bont haearn dros y Taf. Dylanwad pwysig arall oedd cyfeillgarwch naturiol pobl y Cymoedd. Yn fuan, syrthiodd hi mewn cariad gyda phopeth Cymreig. Nawr, amser maith wedyn, mae hi'n cadw addewid a wnaeth iddi hi ei hun yn 18 oed i ddysgu iaith y Nefoedd, pan fo amser gyda hi.

Dyn ni'n defnyddio iaith y Gogledd ac iaith y De gyda'i gilydd heb broblem. Weithiau gwelwch chi ymennydd rhywun yn gweithio'n galed i ddeall ymadrodd Gogleddol, Deheuol neu dafodieithol. Mae hynny yn ychwanegu at yr hwyl a dyn ni i gyd yn dysgu rhywbeth newydd. Cofiwch, fel grŵp o ddysgwyr yn Lloegr, dyn ni'n dysgu drwy gyfryngau'r radio, S4C a phodlediadau, felly mae'n hiaith arferol yn cynnwys geiriau o sawl gwraidd.

Mae'r llun yn dangos saith ohonon ni oedd yn cwrdd ym mis Medi. Roedd y tywydd yn braf ar ôl sawl diwrnod gwlyb felly roedd pawb yn gwenu. Rheswm pwysig arall i wenu oedd bod ni wedi dod o hyd i grŵp o bobl, yn ein hardal ein hunain yn Lloegr, sydd eisiau siarad y Gymraeg wyneb yn wyneb. Doedden ni ddim ar ein pennau ein hunain wedi'r cwbl!

Beth am ymuno â ni? Mae pawb yn gyfeillgar iawn a bydd croeso cynnes i bawb, yn hen neu yn ifanc, ar bob lefel iaith, sydd eisiau defnyddio eu Cymraeg. Dyn ni'n cwrdd unwaith y mis ar yr ail ddydd Sadwrn yng nghaffi canolfan arddio Notcutts, Hatfield Road, St Albans, AL4 0HN o 10.30 i tua hanner dydd.

Elizabeth Liney & Amanda Feron

elizabeth@liney.net

amandaferon@outlook.com

Neges gan aelod o'r grŵp

Ros Jenkins ydw i. Ces i fy ngeni a fy magu yn Walsall, rhan o'r Ardal Du. (Roedd rhaid i fy rhieni symud o Dreforys, Abertawe yn ystod yr Ail Ryfel Byd.) Es i i dŷ mam-gu yn Nhreforys ar wyliau pan o'n i'n ifanc, ac o'n i'n hapus iawn

yng Nghymru. Mae fy mherthnasau yn byw yn Ne Cymru o hyd. Ond dw i'n siarad Saesneg â nhw. Oedd fy rhieni yn gwrthod dysgu Cymraeg i mi, achos, meddan nhw "Dyn ni'n siarad Cymraeg gwael gyda gormod o 'slang'". Ond eu hiaith gyfrinachol oedd hi!. O'n nhw'n gallu siarad gyda'i gilydd, a do'n i ddim yn gallu deall. (Do'n i ddim yn hapus, chwaith!)

Pan wnes i ymddeol, nes i fynychu dosbarthiadau yn St Albans. (U3A). Es i ar gwrs undydd yng Nghanolfan Cymry Llundain dair gwaith. Dw i erioed wedi byw yng Nghymru, felly mae Cymraeg llafar yn anodd i fi. Mae'n hwyl cwrdd â ffrindiau yn y grŵp newydd, a dw i'n mwynhau cwrdd â phobl ifancach na fi. Mae'n gyfle delfrydol i ymarfer siarad yn lleol. Dw i moyn parhau gyda Chymraeg, achos dw i'n dwlu ar S4C, a hefyd dw i moyn gwybod mwy am ddiwylliant a hanes Cymru.

Mae'n amlwg i mi fod ffurfio grwpiau o ddysgwyr yn hanfodol os ydym am gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r tiwtoriaid yn gwneud gwaith clodwiw ond mae grwpiau yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r iaith maen nhw wedi dysgu. Dyma le bydden nhw'n sylweddoli bod nhw yn gallu defnyddio'r iaith mewn ffordd go iawn ac wrth sylweddoli hynny byddai eu hyder yn codi. Hyder i wneud y pethau ychwanegol sydd yn holl bwysig i ddysgu unrhyw iaith - darllen llyfrau, gwranddo ar y radio, gwyllo'r teledu a chael sgwrsiau efo Cymry Cymraeg.

Beth am gael lawer mwy o grwpiau!

It is obvious to me that forming groups of learners is essential if we are going to reach a million Welsh speakers by 2050. The tutors are doing splendid work but the groups give learners a chance to come together to use the language that they have learned. This is where they will realise that they can in fact use the language in a real sense and that realisation will raise their confidence. Confidence to do the extra things which are all important for learning any language - reading books, listening to the radio, watching television and to chat with Welsh speakers.

Lets have even more groups!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalenau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Steve Burrows

Fy enw yw Steve. Dw i'n byw yn Cheltenham, ond yn wreiddiol dw i'n dod o Nottingham. Des i yma i weithio fel gwas sifil. Dw i wedi ymddeol ers 1997.

Dw i'n gweithio fel gwirfoddolwr mewn siop elusennol dwywaith yr wythnos.

Mae gen i gath o'r enw Luka (un o fy hoff ganeuon yw "Luka" gan Suzanne Vega). Mae Luka yn "rescue cat". Mae hi'n hoffi bod yn yr ardd gyda fi.

Dw i'n hoffi yfed "real ale" (weithiau dw i'n cwrdd â dysgwyr eraill mewn tafarn, i siarad bach o Gymraeg), a hefyd dw i'n hoffi bwyd da. Mae tŷ bwyta 'Ffilipino' newydd yn y dre 'ma, dw i'n edrych ymlaen at fynd yna eto'r wythnos yma.

Angela Jones

Sut mae pawb? Fy enw i yw Angela ac rydw i'n byw yn y Rhondda Fawr. Dwi wedi bod yn dysgu Cymraeg am nifer o flynyddoedd. Dwi'n hoffi cwrdd â ffrindiau am goffi a sgwrs. Rydyn ni'n cwrdd bod wythnos. Rydw i'n hoffi cerdded gyda Popi, fy nghi. Rydyn ni'n mynd lan mynydd Pen Pych. Dydw i ddim yn gweithio ar hyn o bryd felly mae digon o amser da fi i fynd am dro.

Sam Sparkes

Sam dw i. Dwi'n dod o Abertawe yn wreiddiol ond ro'n i'n byw yn Llundain am bedwar deg flynedd. Symudais i i Lundain ar ôl y brifysgol i weithio.

Y llynedd des i adre i Gymru a nawr dw i'n byw yn Mwmbwls.

Dechreuais i ddysgu Cymraeg tua dwy flynedd yn ôl, yn ystod y cyfnod clo ac yn defnyddio DuoLingo. Dw i'n ceisio ymarfer tipyn bach bob dydd.

Dw i wrth fy modd efo rygbi a dw i'n cefnogi'r Scarlets (West is Best!!). Dw i wedi prynu tocyn tymor am y tro cyntaf a dw i'n edrych ymlaen at y tymor newydd. Dw i wedi ymuno a Chôr y Scarlets a gobeithio byddwn ni'n gallu canu cyn un neu ddwy gêm.

Peter Sparkes

Peter dw i. Dw i'n byw yn Mwmbwls gyda fy ngwraig. Dw i'n dod o Gernyw yn wreiddiol ac felly dw i'n Gelt hefyd. Dydw i ddim yn Sais!

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg am dair blynedd gyda Bae Abertawe ond dw i ddim yn hoffi dysgu gyda Zoom. Dw i wedi dechrau mynd i grwpiau sgwrsio – dw i ddim yn gallu deall lawer ond dw i'n gwella.

Dw i'n hoffi pêl droed a fy hoff dîm yw Plymouth Argyle. Dydyn nhw ddim yn dda iawn! Dw i'n mwynhau ioga a dw i wedi ymarfer am ddau ddeg mlynedd. Yn dod o Gernyw dw i'n hoffi syrffio ond dw i'n cwmpo'n aml!!

Rob Arnold

Rob dw i. Dw i newydd ymuno â'r Wennol. Ces i fy ngeni a magu yn Lerpwl mewn ardal o'r enw Croxteth, yr un le ble oedd Wayne Rooney, y chwaraewr pêl-droed enwog, yn byw. Pan oedd e'n blentyn roedd e'n arfer cicio pêl-droed yn erbyn wal fy chwaer.

"Cer o 'ma Wayne! Chwarae rhywle arall"! Byddai hi'n dweud. Wel, dyn ni'n gwybod y gweddill!

Symudais i Geredigion, o Ynys Skye, bron bum mlynedd yn ôl, a dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers pedair blynedd.

Dw i'n dilyn cwrs Dysgu Cymraeg ar Zoom, a dw i'n lwcus iawn achos mae tiwtor gwych gyda ni arlein.

Hwyl am y tro.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Carolyn Roberts

Carolyn dw i, a dw i'n byw yn Swydd Gaerloyw, ger y ffin â Chymru. Ces i fy ngeni a fy magu yng Nghaerdydd, ond dw i wedi bod yn byw yn Lloegr ers o'n yn fy arddegau. Nes i ddim dysgu Cymraeg pan o'n i'n blentyn, ond penderfynais i ddysgu'r iaith ar ddechrau'r cyfnod clo. Dysgais i gyda SSIW, Duolingo, a Choleg Gwent ar-lein, a dw wrth fy modd yn dysgu!

James Burtoft

Helo. Fy enw i yw James. Dw i'n ceisio dysgu gair newydd bob dydd, y gair heddiw yw "ceisio" sef "try" yn Saesneg

Yfory? Dw i ddim yn gwybod eto!

Kathryn Anstee Jones

Fy enw i yw Kathryn. Dw i'n wreiddiol yn dod o Gwm Rhondda ond nawr dw i'n byw ym Mhowys. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg am lawer o flynyddoedd....ers i mi fod yn yr ysgol!

Dw i'n hoffi mynd am dro ond, yn anffodus, mae gen i boen yn fy mhengliniau a dw i'n cerdded gyda ffon. Dw i'n dweud fy mod i'n debyg i Dalek iawn ar y fflat ond ofnadwy ar risiau!

Gobeithio, un diwrnod, bydda i'n gallu cerdded gyda phobl sy'n siarad neu ddysgu Cymraeg.

Hwyl am y tro

Mari Jones a'i ffydd

gan Kathleen Warburton

Helo, fy enw i yw Kathleen Warburton. Dw i'n byw mewn pentref o'r enw Dinas Cross, ger y môr yn Sir Benfro. Yn wreiddiol, dw i'n dod o Loegr.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers sawl blwyddyn. Dw i'n dysgu Cymraeg yn Ysgol Bro Gwaun, Abergwaun, a dw i'n mwynhau, ond dw i'n ffeindio hi'n heriol ar adegau. Byddaf yn dal ati! Ar hyn o bryd dw i'n astudio'r llyfr cwrs Canolradd.

Dwi'n mwynhau cerdded yn y cefn gwlad a ger y môr gyda Shirley fy nghi. Dw i'n mynd i ddsbarthiadau, Ioga, Qigong, Clytwaith a chwiltio. Dw i'n hoffi cerddoriaeth ac yn mwynhau mynd i'r Opera yng Nghaerdydd.

Dw i'n warden yn fy eglwys leol. Mae gen i ffrind Gymraeg ac fe ddywedodd hi stori wrthyf am ferch fach a hoffwn ei rhannu gyda chi.

Stori Mari Jones a'i ffydd

Roedd Mari Jones yn byw mewn bwthyn carreg fach yng nghefn gwlad Cymru. Roedd hi'n addoli yng Nghapel y pentref ac yn clywed storïau yn cael eu darllen o'r Beibl. Roedd hi'n hiraethu am Feibl ei hun ac ar ôl cynilo am chwe mlynedd, cerddodd bum milltir ar hugain i'r Bala i brynu un.

Catherine Evans

Catherine dw i a dw i'n byw yn Nhredegar. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers mis Medi 2021, ond mae M.E. arna i felly dw i'n dysgu yn araf! Dw i'n gobeithio byddaf yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl rhywbryd!

Dw i'n hoffi darllen, ar hyn o bryd dw i'n darllen llyfr yn Gymraeg ar lefel mynediad. Mae'n ddiddorol iawn! Dw i'n mwynhau gwrando ar gerddoriaeth hefyd. Mae dwy gath a bochdew gyda fi a physgod ym mhwl yr ardd.

Pob lwc i bawb sy'n dysgu Cymraeg!

Y Doethion



Dyma ni, Fi, Huw a Neil yn mwynhau sgwrs yn Siop y Bobl, Llanmadoc, Diwrnod glawog ofnadwy ond roedd y croeso yn gynnes yn ein lle cyfarfod newydd tan i gaffi Cwm Ivy ail agor.

Ydych chi'n perthyn i grŵp? Gadewch i mi wybod.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Fy ngwyliau tramor cyntaf

gan Catrin Duffy



Ar ôl ennill arian yn gweithio mewn ffatri canio mefus yn nwyrain Lloegr fel myfyrwraig es i dramor am y tro cyntaf.

Prynais docyn Inter Rail ac Amserlen Cooks, y Beibl i deithwyr ar drenau Ewropeaidd, cyn ymuno â thri ffrind yng ngorsaf Victoria yn Llundain i gychwyn yr antur. Cawson ni amser bendigedig yn teithio drwy Ffrainc a gwledydd eraill yn aros mewn hosteli ieuentid.

Buon ni'n ymweld â thref hudolus Fenis cyn treulio'r noson ar y trêni i lawr penrhyn hir Yr Eidal. Doeddwn i erioed wedi profi tymheredd mor boeth. Buon ni'n cysgu ar ddec y llong o Brindisi i Corfu. Mwynheuon ni lawer o bethau newydd cyffrous fel nofio ym Môr y Canoldir, dawnsio Groegaid a bwyta moussaka. Braf oedd gweld y Parthenon a stadiwm Olympia yng Ngwlad Groeg.

Y daith hiraf oedd deugain awr o Athens i Fienna trwy dirwedd ddiddorol Iwgoslafia. Ar ôl ymweld ag Awstria parhaodd y siwrnai tua'r gogledd. Buon ni'n ffodus i fynd i wyl win gyda tân gwyllt yn un o'r pentrefi prydferth ar lan yr afon Rhein yn yr Almaen.

Dychwelais adref trwy borthladdoedd Ostend, Dover a Chaergybi ar ôl gwyliau bythgofiadwy. Roeddwn i wedi dal y byg teithio!

Atgofion Melys

gan Anne Hughes

Es i i'r Eidal ar fy ngwyliau tramor cyntaf. Bues i yno heb fy rhieni, ond gyda chôr o'r brifysgol. Treulion ni'r haf mewn dre arbennig iawn am chwe wythnos ar ddiwedd fy mlwyddyn

gyntaf yn y brifysgol. Roedd popeth yn hudolus, a dweud y gwir. Roedden ni'n ddigon lwcus i fyw fel aelodau o'r gymuned! Bues i - a phedair merch arall - mewn fflat yng nghanol y dre, dros siop flodau dwy hen chwaer. Anfonodd Hans Werner Henze, cyfansoddwr enwog, wahoddiad at arweinydd y côr i ymuno â gŵyl yn Montepulciano. Dwedodd pob un ohonon ni 'wrth gwrs' wrtho fe. Roedd y profiad yn fythgofiadwy. Ro'n ni'n canu mewn cyngerdd neu wasanaeth bob dydd, gan gynnwys sawl perfformiad o 'Don Pasquale', gan Donizetti. Riccardo Chailly oedd yr arweinydd, cyn iddo fe fod yn enwog.



Ar ôl i fi orffen gweithio fel pennaeth adran mewn ysgol uwchradd breifat, rhedais i sawl côr cymunedol yn Swydd Gaerlŷr, a phenderfynais i fynd yn ôl i Montepulciano, dwywaith. Fel y tro cyntaf, amser maith yn ôl, do'n i ddim eisiau gadael. Ro'n i eisiau aros am byth i fwynhau'r tywydd, y bwyd, y gwin wrth gwrs, y ffordd hamddenol o fyw a'r bobl, sy wastad mor gyfeillgar, yn fy marn i. Ro'n i wedi syrthio mewn cariad â phopeth unwaith eto. Doedd dim byd wedi newid yn yr ardal, diolch byth.

Fy Mywyd yng Ngwlad y Basg

gan Deborah

Des i i Wlad y Basg ym mis Awst 2020 ac ar ôl hala rhan fwyaf fy mywyd yn symud o un lle i le arall, o un wlad i wlad arall, dw i'n credu fy mod i wedi ffeindio'r lle ble dw i'n mynd i aros am byth. Hoffwn i gyflwyno fy nghartref newydd i chi, y darllenwyr, er mwyn i chi ddod i'w nabod e hefyd.

Cyn i fi symud, roedd rhaid i fi benderfynu ble yn union yng Ngwlad y Basg o'n i'n moyn byw. Do'n i ddim wedi bod yma o'r blaen, felly do'n i

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ddim yn gwybod llawer am y wlad. Ro'n i'n gwybod eu bod nhw'n siarad Basgeg – iaith heb unrhyw berthynas gydag unrhyw iaith arall – a bod rhan o Wlad y Basg yng Ngwladwriaeth Sbaen gyda'r rhan arall yng Ngwladwriaeth Ffrainc, ond dyna fe! Felly ble i ddechrau?



Penderfynais i ddewis y rhan yng Ngwladwriaeth Sbaen achos mod i wedi dysgu Sbaeneg yn y brifysgol, amser maith yn ôl, felly byddai cyfle i fi ailwampio fy Sbaeneg tra fy mod i'n dysgu Basgeg. Ro'n i'n gwybod mod i moyn byw mewn dinas fach, mwy neu lai maint Caerdydd, felly dechreuais i ddarllen am y prif ddinasoedd.

Prifddinas sir Bizkaia yw Bilbao, ac efallai'r ddinas mae pawb wedi clywed amdani. Dyna le mae Amgueddfa Guggenheim ond hefyd rhai o'r ardaloedd mwyaf diwydiannol yn Sbaen! Hi yw'r ddinas fwya yng Ngwlad y Basg a'r ddegfed yn Sbaen. Mae rhywbeth fel 350,000 o bobl yn byw yn y ddinas ei hunan, ond hyd at filiwn o bobl yn yr ardal, felly rhyw fawr i fi!

Ar yr arfordir ac yn agosach at Ffrainc yn sir Gipuzkoa mae Donostia, neu San Sebastián yn Sbaeneg. Mae'r traethau'n hyfryd ac mae'r ddinas yn bert iawn, felly mae'n llawn twristiaid dros yr haf, ac mae Donostia'n cael ei adnabod fel dinas eithaf drud i fyw ynnddi hi. Doedd Donostia ddim beth o'n i moyn chwaith!

Yng Ngwlad y Basg y De, sef y rhan yn Sbaen, mae dau brif ranbarth – Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg (Bizkaia, Gipuzkoa ac Araba) a Naffaroya. Ro'n i wedi clywed nad oedd fawr o gefnogaeth ar gyfer yr iaith Basgeg yn Naffaroya, felly dim ond Vitoria-Gasteiz, prifddinas Araba oedd ar ôl, ac yn ffodus iawn, mae hi'n berffaith!

Gyda phoblogaeth o 255,000 mae hi'n ddinas fach ond dydy hynny ddim yn meddwl does dim byd yn digwydd yma! Fe wnaeth Gasteiz (fel mae pobl yn dweud yn Fasgeg) ennill gwobr “Dinas Werdd Ewrop” yn 2012 ac mae'n hawdd gweld pam. Mae parciau ym mhobman ac mae'r cyngor yn cefnogi cludiant cyhoeddus glân. Yng nghanol y ddinas mae bryn ble dechreuodd y ddinas yn y Canol Oesoedd ac mae Rhan Ganoloesol dal yn bodoli yno gyda strydoedd cul a hen adeiladau. Mae gweddill y ddinas yn wastad, felly mae llawer o bobl yn defnyddio beiciau a sgwteri trydan, neu gerdded wrth gwrs!

Llwyddais i rentu fflat yn y Rhan Ganoloesol a dw i wrth fy modd yma! Dw i'n dysgu Basgeg – yn araf iawn achos bod hi mor wahanol ac anodd – ond dw i'n cerdded o gwmpas mewn lle hanesyddol iawn, a dw i wir yn hoffi hynny!

Mae Deborah wedi cynnig ysgrifennu am eu hantur yng Ngwlad y Basg yn rheolaidd ac mae hynny'n rhywbeth i edrych ymlaen amdano tydi!

Diolch yn fawr Deborah! Edrych ymlaen at ddarllen mwy am Wlad y Basg.

Fy nhaith iaith tuag at ruglder

gan Phil Stone

Dechreuodd fy niddordeb mewn dysgu'r Gymraeg ar ôl i fi ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanellwedd ym 1993. Dyna oedd y tro cyntaf i fi brofi bwrlwm yr Ŵyl, ond gadawais i'r Maes bryd hynny yn teimlo yn siomedig na allwn i, fel Cymro di-gymraeg, gymryd rhan lawn ynddo. Y mis wedyn, penderfynais i ymuno â dosbarth Cymraeg i Oedolion - 'dosbarth' a gynhelid yn wythnosol mewn tafarn lleol. Nodiadau rhaglen Catchphrase (BBC Radio Wales) oedd sylfaen y cwrs ac ro'n ni'n arfer cael hwyl wrth ddysgu'r Gymraeg ym mar y Bodwigiad Arms yn Hirwaun, ein hystafell ddosbarth! Byddai gwaith cartref ar gael bron bob nos - trwy wrando am bum munud ar y darllediad Catchphrase nosweithiol gan griw arbennig o diwtoriaid BBC Wales.

Bob blwyddyn, byddai myfyrwyr brwd y 'Bod' yn treulio penwythnos cyfan yn Nant Gwrtheyrn, hen bentref chwarelwyr ym Mhen Llyn, ardal lle

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

gallwch chi brofi'r wefr o siarad Cymraeg fel iaith fyw yn y cymunedau lleol. Gallaf argymhell profiad y 'Nant' a'i gyrsiau i bob dysgwr – rhowch gynnig arni, os gallwch chi!

<https://nantgwrtheyrn.org/languagecourses/>

Rwyf wedi gweithio fel athro gwyddoniaeth am y rhan fwyaf o'm bywyd gweithiol ac wedi cael llawer o gefnogaeth fel dysgwr oddi wrth y Cymry Cymraeg ymhlith fy nghyd-weithwyr. Yn y gweithle, mae'n fantais sylweddol i'r dysgwr os gallwch ymarfer eich Cymraeg o ddydd i ddydd, on'd yw hi! Gyda chymorth cyd-weithwyr a thiworiaid y 'Bod', gwnes i basio arholiad TGAU Cymraeg i Oedolion ar ddiwedd y naw degau.

Ymlaen felly at Lefel Uwch! Bryd hynny, daeth fy nysgu tipyn yn fwy ffurfiol nag ym mar fy nhafarn lleol, ar ôl i fi ddechrau ar gwrs Uwch a drefnwyd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Bob bore dydd Sadwrn am ddwy flynedd y byddwn i'n mynychu'r dosbarth Uwch yn Nhrefforest dan ofal Sylfia Fisher, tiwtor profiadol iawn, sy' bellach yn aelod o'r tîm yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg, Prifysgol De Cymru. Trwy'r cyfnod hwnnw, byddwn yn cael llawer o anogaeth gan y Cymry Cymraeg ymysg staff Ysgol Gyfun Treorci, lle o'n i'n Bennaeth Gwyddoniaeth. Mae'r ymweliadau hwyliog â Gwersyll yr Urdd, Llangrannog, yn eu cwmni nhw a disgyblion Blwyddyn 7 yn aros yn y cof!

Ar ôl pasio'r arholiad Lefel Uwch yn 2001, penderfynais ddechrau ar gyfres o fodiwlau 'gloywi' a gynhaliwyd ar y pryd gan Adran Addysg Barhaus Oedolion, Prifysgol Abertawe, yng nghanolfan Tŷ Tawe. Bum mlynedd yn ddiweddarach, daeth trobwynt yn fy nhaith iaith pan ofynnwyd i fi gan Colin Williams, cydlynnydd cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn Rhondda Cynon Taf, a fyddai diddordeb gyda fi mewn gweithio fel tiwtor rhan amser. Erbyn hynny, ro'n i wedi ymddeol o'm swydd yn Nhreorci ac felly achubais ar y cyfle i roi cynnig ar ddysgu mewn sector cyffrous a thra gwahanol.

Bellach mae'r maes Dysgu Cymraeg i Oedolion wedi datblygu yn aruthrol ac mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cael eu cyflogi gan ganolfannau Cymraeg sy'n darparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion o dan ymbarél y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg:

www.dysgucymraeg.cymru

Yn y de ddwyrain rwy'n tiwtora erbyn hyn, fel aelod o ganolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg, Prifysgol De Cymru. Gallwch weld yr hyn dyn ni'n ei gynnig yn ein canolfan yma:

<https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/darparwyr-cyrsiau/prifysgol-de-cymru/>

Mae myfyrwyr gyda fi ar bob lefel yng Nghymoedd y De ac mewn dosbarthiadau yn y gweithle. Mae'n ffrainc a phleser i'w helpu nhw dysgu iaith y nefoedd! Mae'r galw am diwtoriaid ledled Cymru yn cynyddu wrth i ni anelu at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Hoffech chi ein helpu ni i ateb y galw? Os dych chi'n gymwys ac mae angerdd gyda chi dros y Gymraeg, bydd y maes Dysgu Cymraeg i Oedolion yn eich croesawu chi â breichiau agored!

Mae llawer o ddysgwyr yn penderfynu fod yn diwtoriaid ac mae'n gyfle gwych i chi wneud rhywbeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Ces i lawer o fwynhad a dysgais lawer yn ystod y cyfnod pan o'n i'n diwtor. Meddyliwch am y peth! Rob

Digon yw digon

gan Rob Evans

Am tua mis rŵan dw i wedi bod mewn panig llwyr, diwrnod ar ôl diwrnod mae'r pwysau wedi cynyddu arnaf i ac er i mi fod yn brysur dros ben yn trio dal i fyny efo bethau, roedd y pwysau yn dal arnaf i. Y broblem yw bod gen i ormod o goed afalau a gormod o afalau ar bob coeden. Dyma gyfrinach i chi, ces i fy ngeni ym misoedd olaf yr ail ryfel byd ac roedd rhaid bod yn ofalus efo bwyd achos roedd llawer o bethau ddim ond ar gael ar ddog. Roedden ni'n lwcus achos roedd gardd fawr gan Dad ac roedd yn cadw ieir a gwenyn. Roedd llawer o gwningod ar gael hefyd, roedd gwningod ym mhob man. Beth bynnag, achos hynny i gyd dw i ddim yn hapus i weld pethau gael eu gwastraffu.

Cyn i'r amser ddod i gynhaefu'r afalau roedd rhai yn syrthio o'r coed pob diwrnod felly roeddwn yn mynd allan peth cyntaf yn y bore i gasglu nhw ond mi fydd llawer mwy yn syrthio yn ystod y dydd. Yn fuan iawn roedd y rhewgell yn y garej yn dechrau llenwi er roeddwn i'n defnyddio pethau o'r rhewgell trwy'r amser.

7 Roeddwn i wedi bod yn hel mwyar duon ym mis

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Awst ac wedi casglu llawer a dw i wedi bod yn chwilio am wahanol ryseitiau i drïo. Des i ar draws 'Apple Layer Cake' a'r llun yn ddigon i dynnu'r dŵr o'r dannedd ac mewn realaeth roedd yn reit 'moreish', cymaint felly roeddwn i'n



rhoi pwysau ymlaen. Dydw i ddim yn cael problem efo pwysau ond petaswn i'n parhau efo'r rysâit yna bydda i wedi gorfod gwisgo trowsus efo lastig o gwmpas y wasg. Dw i wedi setlo ar stiwiw nhw rŵan ac mae hynny yn flasus ac yn ysgafn - ond pob dydd?

Wedyn ddoth yr amser i gynhaefu a finnau'n mynd o gwmpas y siopau i fegian am focsys hir o'r un faint i gadw nhw. Ond mae rhaid mynd ar yr amser iawn achos, er mwyn cadw'r siop yn daclus maen nhw'n gwasgu bocsys yn syth. Felly mi wnaeth y cynhaefu cymryd o leiaf tair wythnos. Wythnos yn ôl roeddwn i wedi cael popeth i mewn ac roeddwn yn dechrau teimlo'r pwysau'n lleihau. Ond wedyn nes i sylweddoli doedd rhai ddim yn cadw. Pob diwrnod rŵan dw i'n gorfod mynd trwyddyn nhw a chael gwared â'r rhai sydd yn dechrau troi, torri'r darnau drwg oddi arnyn nhw a sleisio a rhewi'r darnau da.

Fy mai i yw hyn i gyd wrth gwrs, mae'r rhain yn goed sydd yn tyfu ar ffrâm ac roeddwn i wedi gweithio allan bod digon o le i ugain goeden. Felly rhois yr archeb i mewn a dechrau gweithio ar y ffrâm. Mewn ychydig o fisoedd roedden nhw wedi cyrraedd ac roedd popeth yn barod i'w plannu nhw. Mae'n rhaid aros am tua chwech neu saith mlwyddyn cyn gadael iddyn nhw ffrwytho a llynedd oedd y flwyddyn gyntaf i mi gael ffrwyth. Ces i gnwd reit resymol ac roeddwn i'n falch nes i brynu ugain. Ond mae pawb wedi cael cnwd da'r flwyddyn yma.

Mae pob coeden yn goeden gynhennid ac mae blas yr afalau yn eich atgoffa o'r dyddiau cyn i ni

ddechrau dweud "Fings ain't what they used to be"!

Na, dydw i ddim yn cwyno, pan o'n ni'n byw yn Saundersfoot roedd gynnon ni ardd fawr a llawer o goed afalau ac roedd yr afalau wedi cael eu stacio mewn paletau pren. Roedd yr afalau yn parhau tan fis Chwefror ond roedd chwech ohonon ni i loddesta arnyn nhw. Blwyddyn nesaf byddaf yn tynnu rhai oddi ar y goeden unwaith dw i'n gallu gweld y ffrwythau cryfach.

Dw i'n meddwl bydd rhaid achos mae gen i ddigon o afalau yn y rhewgell i gadw fi i fynd am ddwy flynedd dw i'n siŵr!

Mynwent yng Ngwlad Belg

gan Peter Madley



Ar fore braf ym mis Medi fe seiclododd Gill, fy ngwraig, a finnau trwy Borth Menem i mewn i ddinas hardd Ieper. Mae llawer o bobl yn defnyddio'r enw Ffrangeg, 'Ypres', ond mae'r bobl sy'n byw yna yn siarad Iseldireg, felly 'Ieper' iddi! Y noson gynt roedden ni wedi bod yno i glywed y 'Last Post' yn cael ei chanu gan dri biwglwr. Gydag enwau'r miloedd o filwyr a lladdwyd wedi'u cerfio ar y waliau o'n gwmpas, roedd y seremoni yn syml, urddasol a hynod o effeithiol.

Ar ôl i ni groesi'r sgwâr mawr fe aethon ni allan o'r ddinas gan ddilyn un o'r camlesi sy'n croesi'r wlad. Ein bwriad ni oedd ymweld â mynwent Artillery Wood er mwyn gweld bedd y Prifardd Hedd Wyn. 'Hedd Wyn' oedd enw barddol Ellis Humphrey Evans, bardd ifanc a oedd eisoes wedi cael cryn lwyddiant mewn sawl eisteddfod. Er ei fod e'n ffermwr fe gafodd ei recriwtio i ymladd yng Ngwlad Belg. Fe anfonodd e ei gerdd o faes y gad ar gyfer cystadleuaeth y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol 1917 a gynhelid ym Mhenbedw.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cyn dyddiad yr Eisteddfod fe gafodd ei ladd yn nhrydedd frwydr Ieper, yr un a elwid Passchendaele. Roedd ei gerdd e'n fuddugol ac yn y seremoni cadeirio, ar ôl cyhoeddi enw'r enillydd fe gafodd y gadair ei gorchuddio mewn du.

Lle syml a threfnus oedd y fynwent gyda'i rhesi o gerrig bedd gwynion. Dim ond un ymhlith cymaint oedd bedd Hedd Wyn. Fe wnaethon ni weddio a chanu pennill o'r emyn 'Llef' yn alarnad. Ym mysg nifer o sylwadau yn Gymraeg yn y llyfr ymwelwyr fe ysgrifennais i 'Pam, Arglwydd?'



Wedyn fe seiclôn ni am filltir a hanner i ymweld â Pharc Coffa Genedlaethol y Cymry yn Langemark. Agorwyd y Parc ym 2014 er cof am y 40,000 o Gymru a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r gofeb ar ffurf draig goch yn sefyll ar ben cromlech ac roedd baner y ddraig goch yn chwifio yn y gwynt uwchben. Ar ochr arall y stryd mae yna dafarn. Uwchben y drws mae arwydd "Croeso" ac ar y wal mae plac coffa i griw awyren fomio Lancaster a gwmpodd gerllaw yn yr Ail Ryfel Byd.

Felly ni ddaeth y gwallgofrwydd i ben ym 1918.



Taith Ardal Llanelli



Ar y 15fed o Hydref roedd ein taith yn ardal Llanelli felly doedd dim rhaid codi'n gynnar i gyrraedd y man cyfarfod. Roedd criw go dda wedi troi fyny yn cynnwys saith o gerddwyr newydd - pump ohonyn nhw'n ddysgwyr. Roedd croeso mawr iddyn nhw.

Yn gymharol ddiweddar roedd y darn o Lanelli roedden ni'n cerdded yn llawn diwydiant, felly prysur, budr a swnllyd. Hynny i gyd wedi ei glirio erbyn hyn ac yn ei le mae llynnoedd, pyllau pysgota a llwybr i gerdded. Mae'n le poblogaidd iawn i seiclo, cerdded cŵn a cherdded. Ar un ochr mae'r môr ac ar yr ochr arall mae Llanelli ac fel pob lle ar lan y môr mae fflatiau wedi cael eu hadeiladu, braf yn yr haf, ond beth am y gaeaf?

Wel, Alun a Gill Griffiths oedd yn arwain a'r peth cyntaf oedd y daith o'r lle parcio at lwybr yr arfordir. Roedd y ddau wedi llwyddo i ddod o hyd i le 'parcio am ddim' - mae hynny'n ennill pwyntiau bob tro.

Cyrraedd y llwybr a gweld y môr, lliw llwyd tywyll a cheffylau gwynion. Doedd y llun o fy mlaen i ddim yn ddigon i ddenu fi i mewn i'r dŵr ond roedd yn ddiddorol gweld y brigwyr tonnau yn rhuthro trwy'r tonnau gyda chymorth hwyl. Ac wrth i mi wyllo nhw ro'n i'n clywed tipyn bach o gyffro tu ôl i ni. Edrychais yn ôl a gweld hanner dwsin o bobl ifanc yn rhedeg i lawr at y môr yn gwisgo dim byd ond dillad nofio. Oedden nhw'n gall tybed? Ond, chwarae teg, roedden nhw'n ddewr!

A dyma ni ar y daith ac yn mynd heibio llyn llawn elyrch, cerdded heibio Cerrig yr Orsedd a, nes ymlaen safle Eisteddfodau 2000 a 2014. Cyrraedd pentref Pwll a mynd heibio be? Wel pwell pysgota wrth gwrs, beth arall byddech chi'n disgwyl mewn lle o'r enw Pwll?

Yn anffodus roedd y tair dysgwraig lleol wedi troi yn ôl amser cinio achos doedden nhw ddim ond wedi disgwyl taith o tua 2 filltir. Ond roeddwn i'n cadw cwmni'r ddwy o sir Benfro, Sue a Frances, a chawson ni sgyrsiau hyfryd. Ar ôl y daith cawson ni baned yn y caffi tra bod nhw'n aros am ŵr Frances a oedd wedi treulio ei ddiwrnod yn gwyllo adar ym Mhenclacwydd.

Diolch i Alun a Gill am drefnu popeth ac am rannu gwybodaeth am yr ardal.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1128027



Dewch efo ni ...

... am lond diwrnod o siarad tu allan yn y cefn gwlad a dysgu am fyd natur a hanes lleol. Wrth gerdded efo ni yn reolaidd byddech yn gallu gweld lliwiau ein byd yn newid trwy'r tymhorau, gwneud ffrindiau newydd a dod i adnabod y byd Cymraeg.

Y De a'r Canolbarth

Rhaglen mis Rhagfyr 2022

Mae pob taith yn dechrau am 10.30

Dim cŵn os gwelwch yn dda

Teithiau'n gorffen tua 3.00

3-12-22 Lle i enaid gael llonydd. Cylchdaith tua 5 milltir; i fyny i Goed Graig Ddu, ymlaen i Flaen Cwm Ffrwd cyn troi yn ôl ar hyd troed Mynydd Farteg.

Man Cyfarfod Maes parcio Clwb Rygbi Talywaun, Cod post agosaf NP4 7RQ - SO259045

Arweinydd Ena Morris: 07890 611737, 01495 772996

10-12-22 Ardal Llanbedr Pont Steffan **Aelodau'r Gymdeithas yn unig.**

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cornish class

Level: Beginners

Thursdays: 10:00-11:30

Where? Brithdir Mawr,
Newport SA42 0QJ

Starts: 12/01/23

For more information:

brithdirmawrhc@gmail.com

Dosbarth Cernyweg

Lefel: Dechreuwyr

Dydd Iau: 10:00-11:30

Ble? Brithdir Mawr,

Trefdraeth SA42 0QJ

Dechrau: 12/01/23

Am fwy o wybodaeth:

brithdirmawrhc@gmail.com

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Llefydd ble mae grwpiau Cymraeg ar gael

Abergwaun, Sir Benfro. Cyfarfod yn Janes Woolshop, High Street, Abergwaun. **SA65 9AR** bob dydd Llun rhwng 10.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb!

Birmingham

Cwrdd y cyntaf dydd Llun ac y trydydd dydd Mawrth bob mis

Cherry Reds (cafe bar), John Bright Street, Birmingham, B1 1Bj anine310@btinternet.com

Facebook - Birmingham Welsh Meet Up

Caerdydd Clonc Bore Llun. Yr Awr Hapus. Un wythnos ar Zoom, 10-10.40 wythnos wedyn yn yr Hollybush Coryton, 10.30-11.30. Yna nol ar Zoom unwaith eto... Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu, @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerdydd Clonc dydd Iau Castell Caerdydd, awyr agored rhwng 1-2 o'r gloch. Ond erbyn canol Hydref nol i gaffi Neros yn Jams Hywel, Yr Ais fydd hi mae'n siŵr. Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerloyw. Lock Keepers, Horseshoe Drive, Over, GL2 8DB. Dydd Iau 9fed Tachwedd, 2.00yp. Dewch i gael hwyl a chyfle gwych i siarad Cymraeg. Peidiwch â bod yn swil! epost: fibenson@gmail.com

Cwm Ivy - Shw mae dydd Iau Siop y Bobl Llanmadoc. Ewchheibio 'r dafarn Britannia tuag at yr eglwys ac mae'r siop ar y dde ar ben yr allt. Golygfeydd ysblennydd a chroeso Cymraeg cynnes. Pob dydd Iau o 11.00 tan 4.00 bobwennol@ntlworld.com

Llanelli Cyfarfod yn Nhafarn y Glowyr am 7.00 tan 8.30 bob nos Lun. Croeso i bawb. clwbclecsllanelli@gmail.com

Oxford/Rhydychen 'Space for Reading', Weston Library, Broad Street, Oxford, OX1 3BG. Pob dydd Gwener amser cinio, 12:00 tan 13:00 Cysylltwch â John Williams jwilliams718@btopenworld.com

Porth, Y Rhondda

Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road

CF39 9PG. Cyfarfod yn y lolfa goffi bob dydd Iau am 10.30 y.b.

Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

Southgate, Bro Gŵyr

Three Cliffs Cafe **SA3 2DH** - pob pnawn dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw bobwennol@ntlworld.com

St Albans, Hertfordshire. Cyfarfod ail ddydd Sadwrn yng nghaffi canolfan arddio Notcutts, Hatfield Road, St Albans, AL4 0HN o 10.30 i tua hanner dydd.

Epost: amandaferon@outlook.com

Thornbury, Glos

Held on the last Tuesday of each month from 14:30 – around 16:00 in Hawkes House, St Mary's shopping precinct, Thornbury BS35 2AB. I call the group 'Cornel y Siaradwyr' and there are usually between 8 and 12 of us present, a mix of 1st language speakers and learners. The next one will be on the 29th November followed by a break in December. Contact: britpgj@gmail.com

Trefdraeth, Sir Benfro. Cwrdd bob bore dydd Mercher am 10.30 y.b. yng Nghaffi Blas at Fronlas yn Stryd y Farchnad. **SA42 0PH.** Croeso cynnes i bawb.

Y Fenni Dydd Llun am 10.30-11.30 - Grŵp Bore Coffi - Y Trading Post, Neville Street, Y Fenni, NP7 5AA - Trefnydd: Chris Chetwynd - e-bost Chris.Chetwynd@colegwent.ac.uk

Dydd Mercher am 13.00 - 14.00 - Clwb Coffi Y Fenni Newydd (Grŵp sgwrsio anffurfiol) - Y Trading Post fel uchod

Trefnydd: Thomas Hughes - 07923 611342 gybodaeth@menterbgmtm.cymru

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. **SY3 7NN** ar y cyntaf a'r trydydd ddydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - bryro@btinternet.com neu ar 07985919358

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Eog Garlleg a Mêl (Rysâit hawdd) gan Fred Nicholas

(Cogydd werth ei halen o Borth



Cynhwysion

4 ffiled eog wyllt tua 1/2 pwys neu 250 gram yr un,
gyda, neu heb, groen
Halén a phupur, er mwyn flasuso
1/2 llwy de paprika (ysgafn, melys neu wedi mygu)
2 lwy fwrdd o fenyn
4 ewin garlleg, wedi'i dorri'n fân neu wedi malu
4 llwy fwrdd mêl
1 llwy fwrdd o ddŵr
2 lwy de o saws soi
1 llwy fwrdd sudd lemwn wedi'i wasgu'n
ffres, (ynghyd â rhywbeth ychwanegol i'w weini)
Sleisau lemwn i weini

Dull

Rhowch y silff ar ganol eich popty. Cynheswch y popty ymlaen llaw i osodiadau broil/gril ar wres canolig.

Ychwanegwch halen, pupur a phaprica i'r eog. Gosod o'r neilltu.

Cynhesu'r menyn mewn sgilet neu sosban dros wres canolig/uchel nes ei fod wedi toddi. Ychwanegwch y garlleg a ffriwch am tua munud, nes ei fod yn persawrus. Arllwyswch y mêl, dŵr a saws soi; gadewch i'r blasau gynhesu a chyfuno. Ychwanegwch y sudd lemwn; cymysgwch yn dda i gyfuno'r holl flasau gyda'i gilydd.

Ychwanegwch y stêcs eog i'r saws yn y badell; coginiwch bob ffiled (ochr croen i lawr os oes groen) am 3-4 munud neu nes ei fod yn euraidd, gan bastio'r topiau gyda sudd y sosban. Blasuswch gyda halen a phupur (os dymunir).

Dewisol - Ychwanegwch y darnau lemwn o amgylch yr eog (i ychwanegu blas lemwn

cryfach). Bastiwch yr eog unwaith eto ac yna trosglwyddwch y sosban i'ch popty i froelio / grilio am 5-6 munud arall, neu nes bod topiau'r eog wedi'u llosgi'n dda, a'r eog wedi'i goginio at eich dant.

Dych chi'n gallu defnyddio lamp llosgi os yw'n well gennych.

I weini, arllwyswch y saws a gwasgiad o sudd lemwn. Gweinwch gyda llysiau wedi'u stemio.

BANGOR UNIVERSITY
Hwb Cymraeg Dwyfor

Hydref Autumn 2022
Dewch i siarad Cymraeg...

Dydd Llun 1af y mis 1st Monday of the month 10:30	03/10/22 07/11/22 05/12/22
Plas Heli, Pwllheli, LL53 5YT	
2il nos Lun y mis 2nd Monday evening of the month 19:30	10/10/22 14/11/22 12/12/22
Yr Heliwr, Nefyn, LL53 6HD	
3ydd dydd Sadwrn y mis 3rd Saturday of the month 10:30	15/10/22 19/11/22 17/12/22
Sportsman, Porthmadog, LL49 9HB	

Cwestiynau? Anfonwch e-bost at
Martyn: m.croydon@bangor.ac.uk

www.facebook.com/HwbCymraegDwyfor

Bachgen yn Aberystwyth

gan Bryan Roberts

Ges i fy ngeni yn Aberystwyth, cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd pan oedd y dref, fel y dyddiau hyn, yn cael ei ddominyddu gan y brifysgol. Dw i'n cofio roedd y myfyrwyr, yn eu siacedi streipiog coch a gwyrdd, yn arfer cerdded ar hyd y Prom o'r harbwr i'r pendraw i "gicio'r bar". Cafodd lawer ohonyn nhw letyau yn Alexandra Hall, yr adeilad mawr trist yr ochr yna o'r Prom, felly nad oedd ganddyn nhw ffordd bell i fynd i'w llety ar ôl gorffen eu taith gerdded.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cyn belled ag y medra i gofio, doedd dim lletyau eraill ar gyfer y myfyrwyr yn y dref oherwydd, ar y pryd, roedd y brifysgol yn eithaf bach. Dyma oedd y sefyllfa tan y chwedegau, pan ddechreuodd fwy a mwy o bobl ifanc gymryd mantais o gael addysg brifysgol a d e c h r e u o d d



Prifysgol Aberystwyth tyfu.

Yn y dyddiau hyn, roedd y brifysgol yn dal yn yr hen adeilad rhwng y castell a'r pier. Nid yw'r brifysgol yn bodoli yna erbyn hyn ac mae'r hen adeilad yn dechrau edrych yn drist. Dw i'n hapus iawn i weld bod 'na cynlluniau cyffroes i anadlu bywyd newydd iddo.

Un adeilad arwyddocaol oedd yr un yn sefyll ar y gornel rhwng y Prom a Heol Teras sef Neuadd y Brenin. Adeilad Art Deco oedd o le'r oedd theatr a neuadd dawnsio.



C h w a r a e o d d grwpiau enwog yn cynnwys Led Zeppelin, Slade a'r Rolling Stones yn y neuadd dawnsio dros y blynyddoedd. I lawr y grisiau roedd trac "Dodgems" a pheiriannau slot, pethau poblogaidd iawn efo bobl ifainc

ond cafodd yr adeilad ei dynnu i lawr ym 1989, dim ond 55 mlynedd ar ôl iddo gael ei adeiladu. Does dim ond siopau a fflatiau diflas yn ei le'r dyddiau hyn. Roedd hynny'n gam yn ôl, yn fy marn i.

Cofiwch nad oedd gwyliau tramor ar gael i bobl gyffredin cyn y chwedegau, oherwydd doedd "package holidays" ddim yn bodoli. Cyn hynny, dros y bythefnos rhwng diwedd mis Gorffennaf ac wythnos gyntaf mis Awst, daeth cannoedd o lowyr o'r De i Aber am eu gwyliau

blynyddol, a phob nos Sul roedd canu emynau cymunedol (Gymanfa Ganu) yn cymryd lle o dan y castell. Ymunodd cannoedd o bobl, yn gynnwys aelodau corau meibion, â'r cyfarfod, felly roedd y canu yn arbennig o dda.

Ar Ffordd y Gogledd roedd yr hen Ysbyty lle treuliais bythefnos ar ôl cael llawdriniaeth fach



iawn. Roeddwn i mewn ward fawr efo llawer o ddynion a dwi'n cofio bod yn anhapus ac yn ofnus yna. Caewyd yr ysbyty


yn y chwedegau pan agorwyd Ysbyty Bronglais. Nid oes unrhyw arwydd o'r hen adeiladau'n bodoli rŵan. Maen nhw wedi cael eu disodli gan fflatiau smart iawn.

Wel, dyma yw fy anghofion o rhai o'r hen adeiladau yn y dref. Mae gen i fwy i'w dweud, ond rhaid i chi aros tan y tro nesaf amdany'n nhw.

Nofelau Cymraeg Rhan 2

gan Martin Jones


A dyma ni efo ail ran o fy erthygl am nofelau Cymraeg ac mewn digon o amser i chi ychwanegu at eich rhestr anrhegion.



Os ydych chi'n hoffi straeon ditectif, galla i gymeradwyo dwy gyfres rydw i wedi'u darllen eleni. Mae Geraint Evans wedi ysgrifennu pedair nofel (ac un stori yn y gyfres Stori Sydyn) am dîm o dditectifs wedi'u lleoli yn ardal Aberystwyth. Ces i fy nghydio o'r dudalen gyntaf. Mae e newydd gyhoeddi ei lyfr diweddaraf, "Hergest," sy'n hollol wahanol o'i nofelau ditectif. Mae'r nofel wedi'i gosod mewn tref brifysgol ddychmygol, ac yn dilyn hynt a helynt Rodrigo Lewis o Batagonia wrth iddo fe dreulio blwyddyn yn Hergest fel darlithydd gwadd. Mae e'n llyfr difyr iawn, llawn hiwmor a dychan.

Mae'r ail gyfres gan Alun Davies sy wedi ysgrifennu trioleg am dditectif o'r enw Taliesin

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



McLeavy. Mae'r nofelau hyn yn dywyllach na'r rhai Geraint Evans, ond os ydych chi'n hoffi "Scandi noir" byddwch chi'n mwynhau'r llyfrau hyn - mae hyd yn oed ychydig o Saga Noren (o'r gyfres teledu "The Bridge") am Taliesin! Mae strwythur y nofelau dipyn yn wahanol gan fod bob pennod yn cael eu hadrodd yn y person cyntaf gan Taliesin a'i bartner bob yn ail heblaw am ambell i bennod gan y llofrudd ei hun.



Mae straeon ysbrydion yn boblogaidd adeg y Nadolig, ac mae "Hen Bethau Anghofiedig" gan Mihangel Morgan yn gyfraniad Cymraeg gwych i'r dosbarth hwn o lyfrau. Mwynheais i awyrgylch bygythiol y llyfr, a chan fod gan y llyfr ddim ond 138 o dudalennau, mae e'n stori berffaith i'w darllen dros yr ŵyl.

Mae pobl yn aml yn cyfeirio at y Gymraeg fel iaith y nefoedd, ond mae'r ymadrodd hwn yn cymryd ystyr arswydus yn "Iaith y Nefoedd" gan Llwyd Owen. Mae'r llyfr wedi'i lleoli yng Nghymru mewn dyfodol dystopaidd lle mae'r Gymraeg wedi cael ei gwahardd. Mae'r iaith yn mynd dan ddaear ac mae'r siaradwyr yn dod yn aelodau o gwlt o dan arweinyddiaeth "Y Tad". Ond i ble mae'r Tad yn arwain ei ddilynwyr, a gall unrhyw un yn rhoi stop arno fe?

Gobeithio bydd yr erthygl hon yn eich ysbrydoli chi i roi cynnig ar ddarllen eich nofel Gymraeg gyntaf. Ond cofiwch, dim ond detholiad bach o'r nofelau Gymraeg cyfoes ydy hwn. Ac wrth gwrs dydw i ddim wedi sôn am glasuron gan awduron fel Caradog Prichard a Kate Roberts.

A gyda llaw, dwedwch wrth Siôn Corn am brynu'r nofelau mewn siopau lleol neu yn uniongyrchol gan y cyhoeddwyr (ee Y Lolfa) yn hytrach na defnyddio Amazon!

Mae 'na rywbeth arbennig am ddarllen llyfrau yn enwedig llyfrau Cymraeg. Mae llawer wedi ei lleoli yng Nghymru ac mae hynny yn gwneud y stori yn fwy perthnasol a chartrefol. Mae'r nofelau hanesyddol yn eich diddanu a hefyd yn eich addysgu am hanes Cymru ac mae llawer o hanes i ddysgu - i bob un ohonon ni ddysgu i ddweud y gwir achos prin iawn oedd hanes Cymru yn cael ei ddysgu i ni yn yr ysgol.

Ewch i'ch llyfrgell! Neu eich siop Cymraeg lleol a mwynhewch!

Pawb yma yn siarad Cymraeg!

Dw i wedi copio y darn yma o dudalennau 'Wilia' ein papur bro yma yn Abertawe. Dw i'n siŵr na fydden nhw'n poeni.



Bwyty Truffle

Yn haeddu ein cefnogaeth!

Mae pob un o 11 aelod o staff Truffle, ar King Edward's Road, yn siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgyblion Ysgol Bryn-y-Môr. Oes angen rhagor o esgus dros fynd mas i gael pryd o fwyd?

Cyfeiriad:

1A King Edward's Rd, Brynmill, Swansea
SA1 4LH

Amser agor:

Dydd Iau 6 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Gwener 5 y.h. - 11.30 y.h.


Cysylltwch:

01792 547 246
info@truffleswansea.com

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

That would be Telyn

Adolygiad gan Rob Evans



Ym mis Hydref siaradwraig gwadd Cymdeithas Hanes Bro Ogwr oedd y delynores Delyth Jenkins ac roedd hi'n sôn am ei thaith ar hyd llwybr arfordir sir Benfro. Nes i fwynhau ei stori gymaint nes i brynu'r llyfr!

Rŵan mae llawer o bobl wedi gwneud y daith a dw i'n siŵr y bydden nhw'n gallu rhoi sgwrs digon diddorol. Digon diddorol ond dim cystal. Ychydig iawn ohonyn nhw byddai wedi cerdded yn y ffordd oedd Delyth wedi cerdded achos roedd hi wedi dilyn traddodiad yr hen feirdd yn crwydro'r wlad ac yn diddanu pobl ar y ffordd.

Ym 2012 wnaeth Delyth benderfynu gwneud y daith o Landudoch i Lanrath efo delyn ar ei chefn, 186 o filltiroedd. Mae darnau o'r llwybr yn eithaf hawdd ond llawer yn anodd, a hynny heb delyn ar eich cefn. Weithiau mae'r tywydd yn ffafriol tu hwnt ond weithiau, neu yn aml pan oedd Delyth yn cerdded, mae'r tywydd yn anffafriol dros ben. Doedd y daith ddim yn fater o ddewis dyddiau braf ac osgoi tywydd garw, sut bynnag oedd y tywydd roedd Delyth yn cerdded.

Roedd rhaid, felly, cael dillad addas ar gyfer bob tywydd, bwyd am y diwrnod a dilledyn mawr gwrth ddŵr i orchuddio popeth. Roedd hi wedi mynd i siop 'Mobility' a gofyn am y clogyn mwyaf, clogyn oedd yn ddigon mawr i orchuddio hi, y delyn ar ei chefn, a'r bag i gario ei dillad sbâr o'i blaen hi. Coch oedd lliw'r clogyn ac ar ddiwedd y llyfr mae hi'n ei ddisgrifio fel 'my teletubby red cape'. Mae ei synnwyr digrifwch yn dod allan trwy'r llyfr i gyd, beth bynnag yw'r anawsterau. Heb yr agwedd yna byddai rywun wedi rhoi'r gorau i'r ymdrech yn fuan iawn.

Wrth gwrs nid rhywbeth dim ond i achosi anhawster oedd y delyn, roedd pwrpas i'r offeryn. Roedd hi am gynnig ei ganu i unrhyw un oedd hi'n gweld ar y daith ac wrth wneud hynny roedd hi wedi ychwanegu at y pleser i bob cerddwyr ffodus roedd hi'n gweld. Dw i'n siŵr bod nhw dal yn siarad am y profiad. Roedd hi'n canu am ei swper hefyd.

Mae'r llyfr wedi cael ei ysgrifennu yn Saesneg ac mae'n bleser pur i ddarllen, mae'n gwneud i chi wenu, i chwervthin yn uchel yn aml iawn ac weithiau yn eich llenwi efo emosiwn. Mae'n eich rhoi chi mewn penbleth, mae'n anodd rhoi'r llyfr i lawr ond dach chi ddim eisiau ei orffen. Nes i setlo ar ddarllen dwy bennod pob diwrnod ac felly sicrhau bythefnos o bleser pur.

Felly beth oedd enw'r llyfr? Wel, That would be Telyn!

Goresgyniad Olaf Prydain:

Abergwaun 1797

gan Martin Jones

Ar 22ain Chwefror, 1797, cyrhaeddodd pedair llong Ffrengig Fae Ceredigion. Am bump o'r gloch y prynhawn, dechreuodd lu o oddeutu 1,400 (600 o filwyr parhaol ac 800 o gyn-garcharorion) o Ffrainc lanio ar unigeddau Carreg Wastad, ger Abergwaun. Erbyn oriau cynnar yr 23ain, roedd y milwyr parhaol wedi ymdeithio dwy filltir i ganol y tir ac wedi sefydlu safleoedd amddiffynnol cryf. Gan fod y Llywodraeth Brydeinig yn cymryd y byddai unrhyw ymosodiad yn dod yn Nwyrain Lloegr, dyna le cafodd y milwyr Prydeinig eu gorsafu. Felly, syrthiodd y dasg o amddiffyn Gorllewin Cymru ar garfan o oddeutu 600 o bobl leol wedi'u casglu ynghyd yn frysioig dan arweinydd John Campbell, Baron 1af Cawdor, ond nid milwyr proffesiynol neu brofiadol oedd y garfan, ar wahân i ryw 150 o forwyr. Serch hynny, ar y 24ain o Chwefror, ymostyngodd y Ffrancwyr heb amodau.

Felly, sut llwyddodd yr amddiffynwyr i ennill Brwydr Abergwaun (fel y'i gelwir yn Gymraeg) mewn amser mor fyr? Dros y blynyddoedd, mae hanes y frwydr wedi cael ei dominyddu gan chwedlau, yn enwedig yr un ynglŷn â'r merched Gymraeg yn gorymdeithio yn eu gwisgoedd **15** traddodiadol a'r goresgynwyr yn credu taw

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

milwyr oedden nhw. A'r chwedl gysylltiedig ynglŷn â Jemima Nicholas o Abergwaun a ddaliodd hyd at ddeuddeg o filwyr Ffrengig gyda dim ond picfforch. Ond beth ydy'r gwir?

Cefndir y goresgyniad oedd y Chwyldro Ffrengig a'r awydd i allforio'r chwyldro i wledydd eraill. Roedd y goresgyniad yn Abergwaun yn rhan o ymosodiad tridaint i helpu'r Gwyddelod i'w rhyddhau eu hunain rhag rheolaeth Brydeinig. Byddai'r brif fyddin o 15,000 o ddynion yn glanio yn Iwerddon, a byddai dau lu arall, llai eu maint, yn glanio ar dir mawr Prydain: un llu yng ngogledd ddwyrain Lloegr, ac un llu ym Mryste os bosib neu fel arall ym Mae Ceredigion. Bwriad y ddau ymosodiad ar dir mawr Prydain oedd tynnu sylw oddi ar Iwerddon ac ar yr un pryd creu anhrefn, annog anfodlonrwydd, a hyd yn oed cychwyn gwrthryfel yn erbyn y llywodraeth. Er i dywydd garw ac ymddygiad afreolus y milwyr roi terfyn ar ddau o'r ymosodiadau, am ryw reswm aeth yr ymosodiad ar Gymru ymlaen.



Fel rydyn ni wedi gweld uchod, ni chymerodd y milwyr parhaol hir i sefydlu safleoedd amddiffynnol cryf iawn. Ond roedd gweithredoedd y 800 o gyn-garcharorion yn hollol groes i'r ymosodiad. Roedd ganddyn nhw ddiffyg disgyblaeth lwyr. Dechreuon nhw ysbeilio tai a phentrefi lleol, a hyd yn oed fandaleiddio eglwys San Gwyndaf lle dygon nhw arian yr eglwys a llosgi dogfennau. Aeth llawer ohonyn nhw'n feddw ar ôl dod o hyd i gryn dipyn o alcohol - yn enwedig yn fferm Trehowel a oedd â chyflenwad da ar gyfer priodas y perchennog, ond hefyd yn gyffredinol ledled yr ardal o ganlyniad i ddrylliad llong Portiwgeaidd â llwyth o win ychydig o wythnosau ynghynt. A dim ond ffoi a wnaeth eraill.

Yn ogystal, ni dderbyniodd y goresgynwyr y croeso gan y Cymry yr oedden nhw wedi gobeithio amdano, ac i wneud pethau'n waeth, doedd dim siawns o ddianc achos roedd llongau'r Ffrancwyr wedi ymadael. Felly bron cyn gynted ag y dechreuodd y goresgyniad, collodd y Ffrancwyr bob hyder a cholodd y goresgyniad bob momentwm.

Erbyn noson y 23ain, roedd y milwyr lleol wedi cyrraedd Abergwaun, a phenderfynodd y goresgynwyr geisio trafod telerau ar gyfer ymostyngiad. Ond mynnodd y Prydeinwyr ymostyngiad heb amodau erbyn 10yb y diwrnod canlynol - a dyna beth ddigwyddodd. Cafodd y Ffrancwyr eu gorymdeithio ymaith i'r carchar cyn cael eu dychwelyd i Ffrainc o ganlyniad i gynllun cyfnewid carcharorion yn 1798.



Ond beth am ran merched yr ardal yn y fuddugoliaeth? Yn ei lyfr, "Britain's Last Invasion, Fishguard 1797", mae'r awdur, JE Thomas, yn taflu amheuan sylweddol ar y chwedlau parhaol hyn. O ran y merched yn eu gwisg Gymreig, mae e'n pwysleisio bod ddim sôn amdany'n nhw mewn unrhyw adroddiad swyddogol, a bod Cawdor (arweinydd y garfan o filwyr lleol) byth yn cyfeirio atyn nhw yn ei adroddiadau o'r goresgyniad. Yn yr un modd, mae'n pwysleisio bod ddim adroddiad cyfoes o gamp Jemima Nicholas. Felly, efallai taw dim ond chwedlau ydyn nhw. Ond os felly, chwedlau parhaol ydyn nhw ac am fersiwn modern ga i awgrymu eich bod chi'n chwilio ar YouTube am gerdd ddoniol iawn Ryan Davies: Napoleon vs Mam.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Taith 6

Cynghordy – Llanymddyfri

gan Sylvia Harries

Wel, o'r diwedd ar ôl gorfod canslo sawl dyddiad oherwydd tywydd rhy wlyb, rhy boeth, streiciau trên, a gwyliau, rydym o'r diwedd yn llwyddo i barhau a'n taith gerdded pellter hir. Oherwydd amserlen trên, roedd y daith gerdded 'y ffordd anghywir o gwmpas'. Mae'n llai o straen cerdded yn ôl i'r car yn hytrach na cherdded yn ôl i'r orsaf er mwyn dal y trên yn ôl. Ond mae'n dda bod ar y llwybr eto.

Gadawon ni Benarth ar yr amser call o 8.15 yn gyrru eto dros y Bannau i Lanymddyfri ar fore braf heulog arall. Cyrhaeddod ni Lanymddyfri yn llawer rhy gynnar i'n trên. Sylwon ni fod petrol yn 6c/litr rhatach yma! Cymeron ni'r amser i lenwi'r car. Roedden ni'n gwybod y bydden ni'n rhy flinedig yn ddiweddarach. Unwaith eto roedd bws arall yn mynd â ni i fyni i orsaf Cynghordy.

Gan fod y rhan arbennig hon yn eithaf byr (6.5 milltir) rhy fyr ar ôl dod o Benarth roeddwn ni wedi ychwanegu dolen i'w gwneud yn 12 filltir. Fel gwnaeth hi droi allan roedd hwn yn ychwanegiad da iawn gan fyddan ni fel arall wedi methu darn sy'n werth ei weld.

Y pwynt cyntaf o ddiddordeb oedd yr hen orsafdy sydd wedi ei adnewyddu'n llwyr ar ôl i'r perchnogion newydd gweithio'n galed yn eu gardd hynod liwgar. Ar ôl ychydig o eiriau i ymddiheuro am ein cyffro swnllyd ymlaen â ni i lawr y lôn.

Mae'r tywydd wedi golygu bod y mwyar duon a'r cnau cob yn doreithiog ac yn barod iawn i'w bwyta. Araf fu'r symud ymlaen! Yn arafach byth pan wnaethon ni weld ychydig o sied fach ar ymyl y ffordd. Ar ôl ymchwilio, gwelon ni ei fod yn llawn danteithion lleol, mêl, siytni, jam, wyau, a jar gonestrwydd am ein harian. Gadawon ni'r wyau ond ni adawon ni'n waglaw.



Aethon ni ymlaen i lawr y lôn heibio Neuadd Cynghordy sydd yn cael gweddnewidiad, ysguboriau'r gorffennol bellach wedi eu hailfodelu yn llety gwyliau hardd. Ymlaen i Fferm Glandŵr. Yma roedd rhaid stopio eto ac nid am y genfaint of eifr gan mai fferm llaeth geifr yw hon. Ond oherwydd mae gan y bobl sy'n byw yma llygaid artistig hyfryd. Sylwch gyntaf ar Mr & Mrs yn eistedd yn yr haul yn gwyllo'r teledu ar ochr y ffordd. Gwrthrych pob dydd wedi cael ei ddefnyddio i atgyweirio'r adeiladau i greu lluniau o fywyd gwaith ar y fferm, heb anghofio'r piece de resistance, traphont Cynghordy. Oeddech chi'n gwybod bod yna waith brics yng Nghynghordy? Rownd y gornel i brif atyniad y daith, traphont Cynghordy, 163 troedfedd o uchder a 18 bwa, mae'n werth ei weld.



Mae dringfa serth yn mynd â ni'n uchel i fyni i'r Caerfyrddin Fans gyda golygfeydd yn ôl cyn belled â Phen y Fan a Chorn Du, ffermydd ynysig wedi eu cuddio yn y bryniau tonnog, mae llawer ohonyn nhw ag ysguboriau wedi cael ei thrawsnewid yn fythynnod gwylia hefyd. Ymlaen ac i fyni ac yna'n sydyn wrth i ni droi'r gornel dyma ni'n wynebu Panther Caerfyrddin yn hanner cuddio tu ôl hen goeden. Whew, dim byd mwy na ffwng mawr iawn.

I lawr nawr tuag at afon Tywi. Heibio Bont Dolauhirion, adeilad rhestredig Gradd 1 fe'i codwyd yn 1773 gan gwmni William Edwards o Bontypridd, teulu o benseiri a gododd y bont hyfryd yn y dref hon hefyd. Dywedwyd unwaith mai hon oedd y bont harddaf yn y Deyrnas. Yn anffodus heddiw ni allwch ei weld yn dda gan fod y coed yn cuddio'r rhaeadrau.

Mae'r rhan olaf y daith gerdded yn hawdd ar hyd ochr yr afon ac yn ôl i'r dref a maes parcio'r orsaf. Dyn ni'n falch ein bod ni wedi llenwi efo petrol bore 'ma!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Unwaith i ni ddychwelyd adref a blasu ein nwyddau, roedden ni'n ysu am fwy! Gan nad oedd cyfeiriad na rhif ffôn i gysylltu â'r siop ysgrifennais a chyfeirio'r amlen, 'Y byngalo, ar y gyffordd T, rhwng y Stablau a Neuadd Cynghordy gyda sied fach wrth y gât'. Cyrhaeddodd y llythyr drannoeth. Nawr rydyn ni wedi gosod ein harcheb i gasglu y tro nesa.

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Tachwedd 2022

Siân James yn siarad am

'Tair Cymraes Mae Hanes Wedi Anghofio'.

Adolygiad gan Nesta Humphreys

Diolch yn fawr iawn i Siân am siarad â ni trwy Zoom. Siaradodd Siân yn angerddol am amser streic y glowyr yn 1984 a'r rôl menywod y pryd hynny pan oedd Siân yn helpu trefnu canolfannau i fwydo teuluoedd y streicwyr. Wrth gwrs, doedd dim Senedd pryd hynny ac roedd Siân yn falch iawn i weld sefydliad y Senedd. Daeth Siân yn aelod seneddol rhwng 2005 a 2015 yn cynrychioli Dwyrain Abertawe ac mae hi'n parhau i ymgyrchu ers hynny.

Wedyn siaradodd Siân am y cerflun i Betty Campbell yng Nghaerdydd. Mae hi'n falch iawn, fel llawer o bobl eraill, bod Betty wedi cael ei chydnabod am ei gwaith a'i rôl bwysig yn ysgolion Caerdydd.

Yn ogystal â Betty Campbell dwedodd Siân fod hi'n edmygu'r tair Cymraes ganlynol:-

1. Heledd - Tywysoges a bardd yng Ngogledd Cymru yn y seithfed ganrif. Heledd oedd y ferch gyntaf i gael ei henwi o fewn llenyddiaeth Gymraeg. Roedd Heledd yn byw mewn oes pan nad oedd ei meddyliau a'i cherddi wedi'u cofnodi ond mae Siân yn meddwl mai Heledd oedd y fenyw gyntaf i gwestiynu pwynt cyfnod yr arwyr gan fod gymaint yn cael eu lladd mewn brwydrau.

2. Jenny Jones - Dwedodd Siân fod llawer o fenywod gyda'r un enw ac mae dryswch rhwng rhai ohonyn nhw. Disgrifiodd Siân Jenny Jones fel y seren marchnata cyntaf, y Kim Kardashian o'r oes Napoleon achos bod delwedd Jenny Jones ar bob poster, ym mhob siop ac ym mhob cartref, delwedd o fenyw yn gwisgo het fawr. **18**

Roedd Jenny yn Waterloo gyda'i gŵr a anafwyd yn y frwydr. Daethon nhw nôl i Gymru a bu farw e yn Nhal y Llyn. Ers hynny mae Jenny Jones wedi dod yn enwog dros y byd am ei rôl fel arwres Waterloo, ei delwedd yn gwisgo het fawr a'r caneuon amdani hi.

3. Eunice Stallard - Merch o Gwm Tawe oedd hi a chwrddodd Siân â hi sawl gwaith, er enghraifft yn eu gweithgareddau yn streic y glowyr yn yr wythdegau. Hefyd, roedd Eunice yn ymwneud â'r Blaid Lafur ac yn weithgar mewn mudiadau heddwch - Aldermaston a Greenham Common. Roedd Eunice yn erbyn arfau ac egni niwclear fel llawer o fenywod eraill, merch oedd eisiau gweithredu yn hytrach na siarad ac mae Siân yn edmygu ei gweithgareddau a'i hymrwymiad i'w chredoau.

Diolch yn fawr i Siân am ei sgwrs ddiddorol iawn – y sgwrs olaf ar gyfer 2022.

Bydd ein Parti Nadolig yn y Clwb Criced Tondy ar 12 Rhagfyr a bydd ein sgwrs nesa ar Zoom ar 9 Ionawr. Dyma ein rhaglen 2023. Byddwn ni'n casglu aelodaeth 2023 cyn hynny - £15 yr un ar gyfer 2023 neu £3 i ymuno ag un sesiwn. Os oes diddordeb gyda chi'n ymuno â'r Gymdeithas, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com <mailto: nestahumphreys@btinternet.com>.

Diolch yn fawr iawn i'n cefnogwyr, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Mae ein rhaglen ar gyfer 2023 ar y dudalen nesaf.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

CYMDEITHAS HANES BRO OGWR

RHAGLEN 2023/ PROGRAMME 2023

Sgyrsiau yn Gymraeg am hanes a diwylliant Cymraeg ar gyfer Dysgwyr a phobl sy'n hollol rhugl.

Talks in Welsh about Welsh history and culture for learners and fluent speakers.

Bydd y sgysiau ar Zoom ar wahan y sgysiau ym mis Mawrth a Medi – byddan nhw yn y Clwb Criced ac ar Zoom. Hefyd bydd ein Parti Nadolig ym mis Rhagfyr yn y Clwb Criced.

<u>DYDDIAD</u>	<u>ENW</u>	<u>TEITL</u>
09 IONAWR (Zoom– 7 30 yh)	Elizabeth Liney	Cipolwg Dros Gymry Llundain
13 CHWEFROR (Zoom – 7 30 yh)	Andrew Green	Ystrad Fflur
13 MAWRTH (Clwb Criced Tondu ac ar Zoom– 7 30yh)	Cleif Harpwood	Dylanwade
8 MAI (Ymweliad – 7 00yh)	Enid Connick	St John's House
12 MEHEFIN (Ymweliad – 7 00yh)	Kath Jones	Datblygiad Cwm Llynfi
11 MEDI (Clwb Criced Tondu ac ar Zoom – 7 30yh)	Dr Elin Jones	Hanes Ysgrifennu 'Hanes yn y Tir'
09 HYDREF (Zoom– 7 30yh)	Cyril Jones	Barddoniaeth
13 TACHWEDD (Zoom– 7 30yh)	Celyn Gurden-Williams	Arglwyddes Llanofar
11 RHAGFYR (Clwb Criced Tondu – 7 00yh)		Parti Nadolig

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Geirfa

Dysgwyr St Albans

Verulam - Verulamium (St Albans)
 Annog - to encourage
 Cysylltiad - connection
 Cais - request
 Brodorol - native (Welsh speakers)
 Gwreiddiau - roots
 Darganfod - to discover
 Sawl aelod - several members
 Hanesyddol - historical
 Meistr Haearn - Ironmaster
 Ymwybodol - familiar (with)
 Oes y Tywysogion - the age of the Princes
 Chwyldro diwydiannol - industrial revolution
 Anffurfiol - informal
 Gyfundrefn - system
 Olion - traces
 Gweithfeydd haearn - ironworks
 Iaith y Nefoedd - Welsh (obviously)
 Ymennydd - brain
 Tafodiaith - dialect
 Ychwanegu - to add to
 Cyfryngau - media
 Wedi'r cwbl - after all
 Canolfan arddio - garden centre

Neges gan aelod

Ardal Du - the Black Country
 Perthnasau - relatives
 Gwrthod - to refuse
 Cyfrinach - secret
 Mynychu - to attend
 Cymraeg llafar - spoken Welsh
 Delfrydol - ideal
 Moyn - to want (Cardiganshire)
 Diwylliant - industry

Gwyliau tramor cyntaf

Canio mefys - strawberry canning
 Antur - adventure
 Hosteli Ieuenctid - Youth Hostels
 Hudolus - enchanting
 Profi - to experience
 Môr y Canoldir - the Mediterranean

Tirwedd - landscape
 Tan gwyllt - fireworks

Atgofion melys

Hudolus - enchanting
 Cyfansoddwr - composer
 Arweinydd - leader
 Bythgofiadwy unforgettable
 Pennaeth adran - head of department
 Swydd Gaerlŷr - Leicestershire

Gwlad y Basg

Gwladwriaeth - state
 Ailwampio - to rebuild
 Rhanbarth - region
 Canoloesoedd - Middle Ages
 Antur - adventure
 Rheolaidd - regular

Fy Nhaith Iaith

Bwrlwm - excitement
 Cynnal - to hold
 Sylfaen - foundation, base
 Chwarelwr - quarryman
 Argymell - to urge
 Gwyddoniaeth - science
 Cyd-weithwyr - fellow workers
 Mantais - advantage
 Sylweddol - substantial
 Anogaeth - encouragement
 Addysg barhaus - further education
 Trobwynt - turning point
 Cydlynnydd - co-ordinator
 Cyffrous - exciting
 Aruthrol - wonderful

Digon yw digon

Cynyddu - to increase
 Ar ddogn - on ration
 Gwenyn - bees
 Cwningod - rabbits
 Mwyar duon - blackberries
 O gwmpas y wasg - around the waist
 Cynhaefu - to harvest
 Begian - to beg

20 Archeb - to order (something)

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cnwd - crop
Rhesymol - reasonable
Cynhennid - native (to)
Gloddesta - to feast

Mynwent yng Ngwlad Belg

Urddasol - dignified
Effeithio - effective
Enw barddol - bardic name
Maes y gad - battlefield
Brwydr - battle
Buddugol - victorious
Gorchuddio - to cover
Galarnad - lamentation

Taith ardal Llanelli

Denu - to attract
Brigwyr tonnau - surfers
Cymorth hwyl - with the aid of a sail
Cyffro - excitement
Alarch - swan
Cerrig yr Orsedd - the Eisteddfod circle
Penclacwydd - the name of the local wetland centre

Bywyd bachgen

Dominyddu - to dominate
Llety - lodgings
Yn bodoli - existing
Arwyddocaol - significant
Cam yn ôl - a step back
Glowr - coal miner
Llawdriniaeth - surgery
Disodli - to supplant

Nofelau Cymraeg

Ychwanegu - to add
Cymeradwyo - to recommend
Cydio - to grip
Darlithydd gwadd - guest lecturer
Tychan - satire
Strwythur - structure
Detholiad - selection

That would be Telyn

Siaradwraig gwadd - guest speaker
Dim cystal - not as good
Diddanu - to entertain
Llanrath - Amroth
Ffafirol - favourable
Garw - rough
Gwrth dŵr - waterproof
Clogyn - cloak
Gorchuddio - to cover
Synnwyr digrifwch - sense of humour
Anawsterau - difficulties
Agwedd - attitude
Offeryn - instrument
Ychwanegu - to add
Penbleth - doubt

Cynghordy - Llanymddyfri

Yn ddiweddarach - later
Ychwanegiad - an addition
Gorsafdy - station house
Adnewyddu - to restore
Ymddiheuro - to apologise
Mwyar duon - blackberries
Cnau cob - hazelnuts
Toreithiog - abundant
Jar gonestrwydd - honesty jar
Gweddnewidiad - transformation
Ysgubor - barn
Llety gwyliau - holiday lets
Cenfaint - herd
Traphont - viaduct
Atyniad - attraction
Adeilad rhestredig - listed building
Pensaer - architect

Goresgyniad

Goresgyniad - invasion
Unigeddau - isolated areas
Ymdeithio - to march
Ymosodiad - attack
carfan - squad, cohort
ymostyngu - to surrender
heb amodau - unconditionally
gorymdeithio - to parade

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Picfforch - pitchfork

Allforio - to export

Tridaint - 3 pronged

tir mawr - mainland

Anhrefn - disorder

Anfodlonrwydd - discontent

Afreolus - unruly

Ysbeilio - to loot

Llongddrylliad - shipwreck

llwyth - cargo

taflu amheuon - to throw doubts

Cymdeithas Hanes

Angerddol - with passion

Cerflun - statue

Cyfnod yr arwyr - the Age of Heroes

Brwydr - battle

Delwedd - image

Gweithgareddau - activities

Ymrwymiad - commitment